# Disgrifiad Rôl Gwirfoddoli: Cynorthwyydd dosbarthu

**Pwrpas y rôl**

I lywio'n ofalus ddosbarthiadau bwyd i'n Haelodau Bwyd Cymunedol a chynorthwyo gyda dadlwytho a throsglwyddo stoc yn unol â deddfwriaethau diogelwch bwyd.

**Pam mae'ch angen chi:**

Mae'r rôl yma yn un hanfodol bwysig yng ngwaith FareShare Cymru, gan sicrhau bod bwyd yn cael ei ddosbarthu'n ddiogel i'n Haelodau Bwyd Cymunedol neu'n cael ei gasglu gan ein darparwyr bwyd.

**Beth fydda i'n ei wneud?**

- Teithio gyda gyrwyr fan dynodedig i ddosbarthu a chasglu bwyd
- Cynrychioli FareShare Cymru mewn modd cwrtais a phroffesiynol ar bob adeg
- Cefnogi gyrwyr i gynnal gwiriadau rheolaidd ar y faniau, cymryd cyfrifoldeb am y faniau yn ystod y dydd ac adrodd am ddamweiniau neu ddifrod i'r fan neu gerbydau eraill
- Cefnogi gyrwyr i gwblhau gwaith papur perthnasol
- Cynllunio teithiau, trefnu bwyd, pigo archebion, llwytho a dadlwytho
- Cynorthwyo gyda gwaith cynnal a chadw'r faniau gan gynnwys glanhau.

**Yr hyn rydyn ni ei angen gennych chi :**

- Rhaid ichi fod o leiaf 18 oed
- Yn dda yn darllen map a/ neu'n gallu defnyddio system lywio â lloeren
- Positif, cyfeillgar a brwdfrydig am fynd i'r afael â gwastraff bwyd a/ neu dlodi bwyd
- Yn gallu ymgymryd â thasgau corfforol gan gynnwys codi a llwytho
- Yn dda gyda rhifau, adnabod gwahanol fwydydd, ysgrifennu'n glir
- Yn gallu gweithio'n effeithlon a defnyddio blaengaredd mewn amgylchedd o waith cyflym a phrysur
- Gweithio'n dda fel rhan o dîm ac yn annibynnol
- Yn gallu dilyn polisïau a gweithdrefnau FareShare Cymru
- Yn hyblyg - efallai bydd yna gyfnodau pan ofynnwn ichi helpu gyda phrosiectau / tasgau eraill

**Beth gaf i allan ohono?**

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth gan Arweinydd y Shifft a'r Cydlynydd Gwirfoddoli a Chyflogadwyedd
- Cyfnod sefydlu a hyfforddiant ar gyfer y rôl, gan gynnwys diogelwch bwyd
- Costau teithio o fewn rheswm, a chinio pan ar gael
- Lle difyr, hwyl a chyfeillgar i wirfoddoli
- Y cyfle i ymgymryd â heriau newydd a chynyddu cyflogadwyedd
- Geirda i'r sawl sy'n ymgymryd yn foddhaol â chyfnod o 3 mis o leiaf
- Y cyfle i gefnogi achos arbennig a rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned